ATODLEN 1

CYNLLUN PENSIWN NEWYDD Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)

# RHAN 12

## TROSGLWYDDIADAU I MEWN AC ALLAN O'R CYNLLUN

### PENNOD 4

### TROSGLWYDDIADAU RHWNG AWDURDODAU CYMRU

**Trosglwyddo hanes pensiwn o un awdurdod Cymreig i un arall**

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), pan fo aelod-ddiffoddwr tân—

(a) yn gadael cyflogaeth awdurdod Cymreig ("cyn awdurdod" yr aelod-ddiffoddwr tân),

(b) heb doriad yn ei wasanaeth, yn dechrau cyflogaeth fel diffoddwr tân gydag awdurdod Cymreig arall ("awdurdod newydd" yr aelod-ddiffoddwr tân), ac

(c) yn rhinwedd y swydd honno yn parhau i fod yn aelod o'r Cynllun hwn,

rhaid i gyn awdurdod yr aelod-ddiffoddwr tân, heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl iddo adael ei gyflogaeth gyda'r cyn awdurdod, ddarparu i'w awdurdod newydd dystysgrif yn dangos y gwasanaeth pensiynadwy yr oedd gan yr aelod-ddiffoddwr tân hawlogaeth i'w gyfrif ar y dyddiad y gadawodd gyflogaeth ei gyn awdurdod ("y dyddiad o bwys").

(2) Yr un pryd ag y bydd y cyn awdurdod yn darparu tystysgrif o dan baragraff (1), rhaid iddo anfon copi ohono i'r person o dan sylw, ynghyd â datganiad o'i effaith ar gwblhau'r trosglwyddo.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), os yw'r person o dan sylw yn anfodlon ar yr wybodaeth a bennir mewn tystysgrif o dan baragraff (1), caiff y person, cyn pen tri mis ar ôl i gopi ohono gael ei ddarparu iddo, ofyn i'r cyn awdurdod ddyfarnu a yw'r wybodaeth sydd ynddo yn gywir.

(4) Rhaid i berson sy'n gwneud archiad o dan baragraff (3) anfon copi ohono i'w awdurdod newydd.

(5) Rhaid i archiad o dan baragraff (3) gael ei ystyried drwy gyfrwng y trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau a roddwyd ar waith gan yr awdurdod yn unol â gofynion adran 50 o Ddeddf Pensiynau 1995(**1**) (datrys anghydfodau) a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau) 1996(**2**); a rhaid i'r awdurdod naill ai gadarnhau'r dystysgrif neu ddyroddi tystysgrif newydd.

(6) Os nad yw'r person o dan sylw yn gwneud archiad o dan baragraff (3), mae'r dystysgrif fel y'i darparwyd, ac os yw'r person yn gwneud archiad o'r fath, mae'r dystysgrif fel y'i cadarnhawyd neu'r dystysgrif newydd a ddyroddwyd (yn ôl y digwydd), yn derfynol ynghylch y gwasanaeth pensiynadwy yr oedd gan y person hawlogaeth i'w cyfrif ar y dyddiad o bwys.

(7) Os bydd y person o dan sylw, ar ôl y dyddiad o bwys ond cyn bod tystysgrif wedi'i darparu o dan baragraff (1)—

(a) yn hawlio pensiwn neu gyfandaliad o dan y Cynllun hwn,

(b) yn hawlio pensiwn neu gyfandaliad o dan y Cynllun Iawndal, neu

(c) yn marw,

bydd y paragraff hwnnw yn peidio â bod yn gymwys.

(**1**) 1995 p.26.
(**2**) O.S. 1996/1270.

(8) Os bydd digwyddiad a grybwyllir yn unrhyw un o is-baragraffau (a) i (c) o baragraff (7) yn digwydd cyn i'r dystysgrif o dan sylw ddod yn derfynol, bydd effaith y dystysgrif yn peidio a bydd paragraff (3) yn peidio â bod yn gymwys.

(9) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i dystysgrif ddod yn derfynol, rhaid i'r awdurdod newydd roi ei heffaith iddi drwy gredydu'r person o dan sylw â'r gwasanaeth pensiynadwy a ddangosir yn y dystysgrif.